YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Gweminar Gweminar Gweminar

GOFAL EIN GWINLLAN:

Cyfres o weminarau am gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant.

Y weminar gyntaf:
Dydd Sadwrn 20 Mawrth 2021,
rhwng 10.00 a 11.30am.

Themâu:
John Davies, Mallwyd, a rhyddiaith Anglicanaidd yr 17eg ganrif;
Y Salmau Cân yn eu Cyd-destun.



Cynhelir y sesiynau yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar-y-pryd ar gael hefyd.
The sessions will be held in Welsh, with simultaneous translation available.

YNGLŶN Â'R WEMINAR

Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionnydd, a John Davies, Rheithor Mallwyd, oedd dau o gewri'r Diwygiad Protestannaidd a'r Dadeni Dysg yng Nghymru yn niwedd yr 16eg ganrif a dechrau'r 17eg ganrif. Cyfrannodd y ddau i'r gwaith o gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, gwaith a gyrhaeddodd ei benllanw yn argraffiad diwygiedig 1620. Yr argraffiad diwygiedig hwnnw oedd Beibl y Cymry hyd nes cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd yn 1988, a hawdd cytuno â chyfieithwyr Beibl 1988 wrth iddynt alw Beibl 1620 'yn brif drysor crefyddol, diwylliannol a llenyddol ein cenedl'. Yn ychwanegol at Feibl 1620, aeth Salmau Cân Edmwnd Prys, Gramadeg Cymraeg John Davies a'i argraffiad diwygiedig o'r Llyfr Gweddi Gyffredin trwy'r wasg yn ystod 1620-21: cyfrolau nodedig a fu'n fawr eu dylanwad. Priodol felly, yn nechrau 2021, yw rhoi sylw i gyfraniad mawr Edmwnd Prys a John Davies, Mallwyd.

SIARADWYR

Dr Dylan Foster Evans
Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Parch. Ddr Adrian Morgan
Ficer Plwyf Casllwchwr a Gorseinon yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu

Gallwch gofrestru ar gyfer y weminar yma:
https://us02web.zoom.us/webinar/register/WN_3aEfmZE0TOCnmnu7Gm0ftw

Eglwys Tydecho Sant, Mallwyd.
Llun © Martin Crampin.
Defnyddir gyda chaniatâd caredig y ffotograffydd.

Cynhelir y gweminarau nesaf yn y gyfres ar 24 Ebrill a 8 Mai (10.00 – 11.30am)

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Webinar Webinar **Webinar** Webinar Webinar

GOFAL EIN GWINLLAN
(CARING FOR OUR VINEYARD):

***A series of webinars about the contribution of the Church in Wales to the Welsh Language and its literature and culture.**

The first webinar:
Saturday 20 March 2021,
between 10.00 and 11.30am

Themes:
John Davies, Mallwyd, and Anglican prose of the 17th century;
The Metrical Psalms in their Context.



***The sessions will be held in Welsh, with simultaneous translation available.**

ABOUT THE WEBINAR

Edmwnd Prys, Archdeacon of Meirionydd, and John Davies, Rector of Mallwyd, were two of the giants of the Protestant Reformation and the renaissance of learning in Wales at the end of the 16th century and the beginning of the 17th. Both of them contributed to the work of translating the Bible into Welsh, efforts which reached their climax with the revised edition of 1620, the edition which remained the Bible of Welsh speakers until Y Beibl Cymraeg Newydd was published in 1988. It is easy to concur with the translators of the 1988 Bible in describing the 1620 Bible as 'the primary religious, cultural and literary treasure of our nation.' In addition to the 1620 Bible, Edmwnd Prys' metrical psalms, John Davies' Welsh Grammar and the revised edition of the Book of Common Prayer were all published during 1620-21, all of them noteworthy volumes of great influence. It is appropriate then, at the beginning of 2021, to pay attention to the major contribution of Edmwnd Prys and John Davies, Mallwyd.

SPEAKERS

Dr Dylan Foster Evans
Head of the School of Welsh,
Cardiff University

The Rev. Dr Adrian Morgan
Vicar of Casllwchwr and Gorseinon
in the Diocese of
Swansea and Brecon

You can register for the webinar here:
https://us02web.zoom.us/webinar/register/WN_3aEfmZE0TOCnmnu7Gm0ftw

St. Tydecho's Church, Mallwyd.
Photograph © Martin Crampin.
Used with kind permission of the photographer.

The next webinars in the series will be held on 24 April and 8 May (10.00 – 11.30am)